**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 1 MEDI 2025**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Cenwyn ap Tomos, Siân Cwper, Glyn Griffiths

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Beti Williams, June Jones

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 30 Mehefin 2025.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 30 Mehefin 2025.

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Siân Cwper

## 5. Cyflwyniad ar Ynni Lleol, Dafydd Watts

Cafwyd gwybodaeth bellach gan Dafydd Watts ar Ynni Lleol.

Un peth sydd angen ei ystyried yw bod mesuryddion clyfar yn rhan annatod o unrhyw gynllun. Rhaid cael mesuryddion clyfar, ac un broblem, yn enwedig yng nghymuned Llanfrothen, yw nad oes signal digonol i alluogi cysylltu.

Felly bydd cael gwybodaeth o ran pa gartrefi yn ardal Llanfrothen sydd yn methu cysylltu yn wybodaeth angenrheidiol ddechreuol. Mae'n bosibl y byddai gan Stad Brondanw wybodaeth ar y mater yma.

Mae Mary Gillie o Ynni Cymunedol yn fodlon dod i gyfarfod mis Tachwedd. Bu iddi ddanfon manylion am sesiwn ddechreuol ar lein y byddai werth mynychu er mwyn deall pethau'n well yn gyntaf.

Cytunwyd fod angen sefydlu grŵp bychan er mwyn ystyried dichonoldeb unrhyw gynllun ynni lleol fel cam cyntaf.

.

## 6. Materion yn codi o'r Cofnodion

## 6.1 Y Ganolfan

Mae Menter Y Ring wedi gofyn a fedran nhw ddefnyddio'r Ganolfan i gynnal eu cyfarfodydd. Byddant yn cyfarfod unwaith bob rhyw ychydig o wythnosau. Cytunwyd i godi £10 yr awr.

Yn ogystal, mae grŵp gwerin lleol wedi mynegi diddordeb i ddod i ymarfer. Cytunwyd eu bod yn talu £10 yr awr.

**Cynnig:** Siân Cwper

**Eilio:** Cenwyn ap Tomos

Mae'r Comisiwn Elusennol wedi bod yn gofyn am statws Y Ganolfan, gan ei bod wedi ei chofrestru ganddynt fel Ymddiriedolaeth. Maent hefyd wedi nodi nad oes yna unrhyw Ymddiriedolwyr cyfredol. Bydd angen felly edrych am ymddiriedolwyr newydd a sicrhau fod Y Ganolfan yn cael ei rhedeg ar ran y cyngor cymuned gan bwyllgor ar wahân.

Mae angen tacluso tu allan Y Ganolfan, ble mae chwyn yn tyfu. Cytunodd y Cynghorydd Nia Povey i holi'r un wnaeth y gwaith y llynedd i wneud y gwaith.

## 6.2 Goryrru Llanfrothen a Gosod Cyflymder 20 m.y.a.

Bu i'r Cynghorydd Nia Povey gyfarfod efo aelod o'r cyhoedd sy'n pryderu am oryrru yn Garreg. Bu yna ystyriaeth i sefydlu grŵp gwirfoddol i fesur cyflymder, ond doedd yna ddim digon o ddiddordeb i fedru cyflawni hyn.

Siaradodd Y Cynghorydd Nia Povey efo Cyngor Gwynedd o ran cael arwyddion yn arafu'r traffig yn raddol o 60 m.y.a. i 20 m.y.a. wrth ddod i mewn ar hyd y Morfa i Garreg o Benrhyndeudraeth, o Brenteg i Garreg, ac o gyfeiriad Tan Lan i mewn i Garreg. Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno mewn egwyddor, ond ni fydd hyn yn medru digwydd tan 2026.

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn ystyried newid y cyflymder yn Rhyd, ond bydd angen cynnal proses ymgynghori statudol er mwn sicrhau hyn..

Mae cynghorau cymuned megis Clynnog Fawr a Llanllyfni wedi gosod arwyddion sydd yn fflachio cyflymder ym Mhontllyfni a Nantlle. Mae'r rhain yn fflachio'r cyflymder ar y ffordd, os ydy cerbyd yn goryrru.

Mae'r gost tua £4,000 am yr offer, £1,250 i osod yr offer, a chostau cynnal a chadw ar gyfer y dyfodol.

Cytunwyd y byddai'n syniad da ystyried offer o'r fath ar y ffordd i mewn i Garreg o'r Morfa.

Gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio i mewn i'r mater a chysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn gweld beth fyddai'n bosibl.

### 6.3 Ffordd Lodge Brondanw am Groesor

Mae'r arwyddion ffordd gul ac arwydd 20 m.y.a. bellach wedi eu gosod ger Lodge Brondanw gan Gyngor Gwynedd.

### 6.4 Mynwent Tan Lan

Danfonodd Y Cynghorydd Nia Povey luniau o'r cerrig beddau sydd wedi cael eu gosod ar eu cefnau.

Cytunodd y Cynghorydd Glyn Griffiths fynd i'r fynwent er mwyn cael golwg ar y cerrig beddi ac adrodd yn ôl.

### 6.4 13 Garreg Frech

Deallir fod aelod o'r cyhoedd wedi danfon llythyr fis Gorffennaf at Bennaeth Tai ac Eiddo yn mynegi pryder am gyflwr yr eiddo. Parheir i ddisgwyl ymateb gan Gyngor Gwynedd.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi agor ffeil ar gyflwr yr eiddo gan ein bod wedi danfon atynt hwy yn mynegi pryder

### 6.5 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen

Llwyddwyd i gael grant o £7,500 gan Gronfa Gwynedd Ni. Efo cyfraniad Stad Brondanw o £1,000 a'r gallu i gael ad-daliad o'r TAW, mae hynny yn golygu £500 yn brin o'r gost adeiladu.

Mae cais hefyd wedi cael ei wneud i Gronfa Gymunedol Eryri am arian. Byddan nhw yn gwneud penderfyniad yn fuan, ond yn cymryd i ystyriaeth y ffynonellau ariannu eraill sydd gennym.

Mae Llechan Lan, wedi gofyn am gyfarfod ar y safle cyn dechrau'r gwaith.

### 6.6 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth

Danfonodd Y Cynghorydd Nia Povey yr adroddiad a gafodd gan beiriannydd at Gyngor Tref Penrhyndeudraeth.

### 6.7 Casglu Arian Diffribliwyr

Bydd Y Cynghorydd Glyn Griffiths yn mynd i Groesor yn fuan, er mwyn casglu unrhyw arian o'r blwch yno.

## 7. Materion Ariannol

**7.1** Cyflog Clerc Gorffennaf 2025 £541.60

**7.2** Cyflog Clerc Awst 2025 £559.04 a £69.76 wedi ei ôl-ddyddio i Ebrill 2025 yn dilyn dyfarniad cyflog NHALC diwedd Gorffennaf 2025

**7.3** Costau banc hyd at 27 Mehefin 2025 £8.00

Costau banc hyd at 27 Gorffennaf 2025 £8.00

**7.4** Yu Energy 1 Gorffennaf 2025 - £18.27

Yu Energy 1 Awst 2025 - £19.34

**7.5** Anfoneb Cymru 1 – 9827 cymorth gwefan 2024/2025 - £466.80

**7.6** Anfoneb Dunn & Ellis, 171162, 24 Gorffennaf 2025, cyflogres - £73.50

**7.7** Anfoneb Cyngor Gwynedd Archwilio Mewnol 2024/25 - £420.00

**7.8** Anfoneb Michael Kerr, 18 Awst 2025, Claddedigaeth Mynwent Tan Lan - £450

**7.9** Derbyn Ad-daliad TAW 2024/25 - £290.21 -

**7.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 3 Gorffennaf 2025 - £11.00

**7.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 4 Gorffennaf 2025 - £5.00

**7.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Gorffennaf 2025 - £3.00

**7.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 8 Gorffennaf 2025 - £3.00

**7.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 9 Gorffennaf 2025 - £3.0

**7.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 11 Gorffennaf 2025 - £11.70

**7.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 14 Gorffennaf 2025 - £35.07

**7.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 15 Gorffennaf 2025 - £2.44

**7.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 17 Gorffennaf 2025 - £10.72

**7.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 21 Gorffennaf 2025 - £24.84

**7.20** Derbyn taliad SumUp i'r banc 23 Gorffennaf 2025 - £4.87

**7.21** Derbyn taliad SumUp i'r banc 25 Gorffennaf 2025 - £4.87

**7.22** Derbyn taliad SumUp i'r banc 28 Gorffennaf 2025 - £14.61

**7.23** Derbyn taliad SumUp i'r banc 29 Gorffennaf 2025 - £4.87

**7.24** Derbyn taliad SumUp i'r banc 31 Gorffennaf- £4.87

**7.25** Derbyn taliad SumUp i'r banc 1 Awst - £24.37

**7.26** Derbyn taliad SumUp i'r banc 4 Awst - £5.84

**7.27** Derbyn taliad SumUp i'r banc 5 Awst - £1.95

**7.28** Derbyn taliad SumUp i'r banc 11 Awst - £9.74

**7.29** Derbyn taliad SumUp i'r banc 12 Awst - £1.95

**7.30** Derbyn taliad SumUp i'r banc 14 Awst - £2.92

**7.31** Derbyn taliad SumUp i'r banc 18 Awst - £24.36

**7.32** Derbyn taliad SumUp i'r banc 19 Awst - £4.87

**7.33** Derbyn taliad SumUp i'r banc 22 Awst - £2.92

**7.34** Derbyn taliad SumUp i'r banc 26 Awst - £26.31

**7.35** Balans yn y prif gyfrif 26 Awst 2025 £4,611.57

**6.36** Balans yn y cyfrif cadw 26 Awst 2025 £37,979.49

**8. Gohebiaeth**

Dim.

**9. Cynllunio**

Dim

**10. Materion Eraill**

**10.1 Windows 10**

Mae'r cymorth ar gyfer Windows 10 yn dod i ben ar 14 Hydref 2025. Golyga hyn na fydd Microsoft yn cynnig diweddariadau diogelwch, na chymorth technegol wedi hynny. Bydd y cyfrifiadur yn agored i fwy o risg o firysau a risgiau diogelwch.

Cytunwyd mewn egwyddor i uwchraddio i Windows 11, ond bod angen sicrhau fod y cyfrifiadur yn addas ar gyfer hynny yn gyntaf.

**10.2 Cais i leihau'r Terfyn Cyflymder ar yr A4085 o 60 m.y.a. i 30 m.y.a.**

Bu aelod o'r cyhoedd mewn cysylltiad i ofyn a fyddai'n bosibl gostwng y cyfyngiad cyflymder ar yr A4085 o 60 m.y.a. i 30 m.y.a.

Bu'r Cynghorydd Nia Povey mewn cysylltiad efo Cyngor Gwynedd a ddywedodd y byddent yn rhoi ystyriaeth i'r mater, ond fydd dim yn digwydd yn y tymor byr, ac mae'n debygol na fydd ystyriaeth tan wedi etholiad Senedd Cymru yn 2026, rhag ofn y bydd yna newid polisi.

**10.3 Llwybrau'r Gymuned**

Cafwyd cwyn gan aelod o’r gymuned am gyflwr y llwybr o Garreg Uchaf i Wern.  Mae bron a chau oherwydd gordyfiant, ac ambell gangen wedi disgyn ar y llwybr.

Bu i’r aelod o’r cyhoedd ddweud hefyd ei fod wedi bod yn torri a thacluso'r darn o’r llwybr o’r Ring i Garreg Uchaf ei hun.

Cysylltwyd â Chyngor Gwynedd sydd yn dweud mai llwybrau22 a 24 yw’r rhain a’u bod am drefnu archwiliad maes o law.

**10.2  Hydro Croesor**

Ni wnaethpwyd unrhyw elw yn ystod y flwyddyn a fu ac felly does dim taliad yn ddyledus i’r cyngor cymuned.

**10.3  Canclwm Siapan Rhiw Tŷ Mawr**

Nodwyd fod canclwm siapan yn tyfu ger Rhiw Tŷ Mawr.  Gan fod y tyfiant ar ochr y ffordd, adran priffyrdd Cyngor sydd yn gyfrifol am ei reoli.  Maen nhw wedi bod yno yn trin y tyfiant**.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3 Tachwedd 2025 am 7 yr hwyr**